

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-05-02(min)

COFNODION

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Chwefror 2002
Amser: 2.40pm i 5.10pm
Lleoliad: Theatr Brycheiniog, Aberhonddu

Presennol: Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Kirsty Williams Brycheiniog a Maesyfed
(**Cadeirydd**)
Geraint Davies Rhondda
Brian Gibbons Aberafan
Brian Hancock Islwyn
Jane Hutt Bro Morgannwg
(Gweinidog)
Ann Jones Dyffryn Clwyd
Dai Lloyd Gorllewin De Cymru
David Melding Canol De Cymru
Lynne Neagle Tor-faen
Yn Bresennol:
Hazel Lamrick Ysgrifennydd Grwp Lleol, Afasic, Gwent
Suzanne Powell Rhiant Gynrychiolydd, Afasic, Gwent
Neil Powell Rhiant Gynrychiolydd, Afasic, Gwent
Eryl Bray Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru, Tîm Cefnogi Teuluoedd
Margaret Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru, Tîm Cefnogi Teuluoedd
Devonald-Morris
Philippa Ford Swyddog Polisi Cymru Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
Lyn Horrocks Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
Geraldine Hastings Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
Elaine Owen Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
Julie Harvey Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
Sandra Morgan Cadeirydd, Pwyllgor Penaethiaid Therapi Galwedigaethol Cymru Gyfan
Liz Smith Pwyllgor Penaethiaid Therapi Galwedigaethol Cymru Gyfan
Anne Grimes Pwyllgor Penaethiaid Therapi Galwedigaethol Cymru Gyfan
Keith Bowen Swyddog Datblygu, Contact a Family
Marie James Rhiant Gynrychiolydd, Contact a Family
Dr Gareth Price Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Addysg, Hamdden a Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Swyddogion	
Chris Burdett	Isadran Plant a Theuluoedd
Peter Lawler	Isadran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol
Martin Price	Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Dr Hywel Williams	Cyfarwyddiaeth Gwarchod a Gwella Iechyd
Ysgrifenyddiaeth	
Jane Westlake	Clerc y Pwyllgor
Claire Morris	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rod Richards a hefyd gan Gwenda Thomas a Cynog Dafis, a oedd wedi eu gwahodd i gynrychioli buddiannau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y maent yn eu cadeirio yn y drefn honno.

1.2 Atgoffwyd aelodau o'r gofyniad o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiant cyn cymryd rhan yn y trafodaethau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Brian Hancock, ymgynghorwr iechyd galwedigaethol, diogelwch a'r amgylchedd;
- Dai Lloyd, meddyg teulu ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe

Eitem 2: Adolygiad o Wasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig

Papur: HSS-05-02(p.1a – p.1f)

2.1 Yn dilyn rhoi ystyriaeth i'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd mewn ymateb i lythyr ymgynghorol y Pwyllgor dyddiedig 22 Hydref 2001, cafodd nifer o gyrff gwirfoddol a statudol eu gwahodd i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Afasic

- Nid yw plant ar ben llai difrifol y sbectwm awtistiaeth sydd ag anableddau cudd yn ymwneud ag anawsterau lleferydd/iaith a chyfathrebu yn manteisio ar wasanaethau cymdeithasol na gwasanaethau seibiant.
- Roedd polisi 'aros i weld' ar waith i benderfynu a yw plentyn yn dioddef o arafwch iaith neu a fyddai hynny yn datblygu i fod yn anhwylder iaith neu gyfathrebu. Golygai hyn nad oedd plant yn cael eu hasesu gan bediatrydd na therapydd lleferydd a iaith hyd nes eu bod yn dair neu drosodd, ac hyd yn oed y pryd hwnnw gallai fod yn rhaid aros am hyd at ddwy flynedd i allu manteisio ar therapi lleferydd a iaith.
- Hyd yn oed pan fyddai rhieni yn talu i gael eu plentyn wedi ei asesu gan therapydd lleferydd a iaith preifat, gallai fod yn rhaid aros am dros 12 mis cyn y byddai'r asesiad hwnnw'n cael ei ddefnyddio.

- Nid oedd gwybodaeth ar gael yn gyfleus i rieni; yr oeddent yn gorfod dod o hyd iddi'u hunain.
- Yng Ngwent, yr oedd asesiadau ac adolygiadau Anghenion Addysg Arbennig yn cael eu dal yn ôl.
- Darperir therapi iaith a lleferydd gan awdurdodau iechyd, a dderbyniai arian ar ei gyfer, ond yr oedd yn cael ei gyflwyno o fewn i'r sector addysg, a oedd yn gyfrifol yn y pen draw am ei ddarparu. Byddai cyllido ar y cyd a glustnodwyd yn galluogi ymyriad cynnar gan yr awdurdod iechyd ond byddai hefyd yn caniatáu i'r awdurdod addysg ddelio ag adolygiadau, asesiadau a lleoliadau arbenigol.
- Yng Ngwent roedd un therapydd lleferydd a iaith Cymraeg ond gadawodd hi ac ar hyn o bryd nid oes darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr oedd angen lleoliadau newydd o bosibl wedi eu noddi gan yr awdurdodau iechyd.
- Byddai darparu gweithiwr allweddol yn fuddiol iawn i deuluoedd, cyhyd â'u bod wedi derbyn hyfforddiant digonol a phriodol.
- Cymerodd Hazel Lamrick ran mewn cyfarfodydd i drafod y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd yn Nhor-faen, ond roedd hyn yn ymwneud â phlant oedd yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol ac nid oedd plant ag anawsterau cyfathrebu o angenrheidrwydd yn dod o dan adain y gwasanaethau cymdeithasol.
- Yng Ngwent dim ond os oeddent yn dioddef anabledd arall hefyd y gallai plant ag arafwch cyfathrebu gael mynediad i'r Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.

Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru

- Roedd y staff yn treulio cryn dipyn o'u hamser yn teithio.
- Roedd 156 o blant wedi eu cofrestru gyda'r Tîm Cefnogi Teuluoedd ac yr oedd pob un o'u teuluoedd wedi cael eu hysbysu o argaeledd gwasanaethau seibiant ac yr oeddent yn gallu manteisio arnynt. Yn gyfredol, roedd 62 o'r teuluoedd hynny yn derbyn gwasanaethau seibiant.
- Roedd gofal seibiant wedi ei leoli gyda theulu, lle'r oedd plentyn yn cael ei gydweddu â theulu addas, yn gweithio'n llwyddiannus iawn ond nid oedd hynny ar gael i blant ag anghenion iechyd cymhleth neu bobl ifanc yn eu harddegau ag awtistiaeth.
- Roedd Grwp Rheoli Busnes yn cynrychioli iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn edrych ar ffyrdd i ddatblygu cyllideb offer aml-asiantaeth. Roedd storfa offer aml-asiantaeth eisoes wedi ei sefydlu.
- Roedd trafferth wrth ddarparu gwasanaethau seibiant i blant ag anghenion iechyd cymhleth, ond yr oedd canolfan arbennig lle y darperid peth gofal seibiant.
- Yn gyffredinol, nid oedd hi'n angenrheidiol i flaenoriaethu darpariaeth gwasanaethau seibiant. Unwaith yr oedd y gofyn am ofal seibiant wedi ei gydnabod byddai gweithiwr cymdeithasol gofal seibiant yn ymweld â'r teulu ac yn trafod eu hanghenion. Y lefel o gefnogaeth fyddai'n cael ei chynnig iddynt fel rheol oedd un penwythnos y mis ond os oedd teulu yn profi anawsterau eithafol gellid trefnu i ddarparu mwy. Ar hyn o bryd ariennir gofal seibiant drwy'r gwasanaethau cymdeithasol ar wahân i blant ag anghenion iechyd cymhleth lle'r oedd cytundeb wedi ei sefydlu ar gyfer ariannu gan yr Ymddiriedolaeth GIG.
- Nid oedd problem gyda chydbwysedd y gwasanaethau a ddarperir i blant ag anableddau dysgu a'r rheini ag anableddau corfforol.
- Gallai gwersi gael eu dysgu yng ngweddill Cymru o'r ymagwedd aml-asiantaeth a fabwysiadwyd

yng Ngheredigion.

- Cynhwyswyd iechyd y ceg fel rhan o'r adolygiad gofal ac roedd y tîm yn gweithio'n agos gyda'r Deintydd Cymunedol, ac roedd cynigion yn cael eu datblygu ar gyfer rhaglen ar y cyd mewn ysgolion yn gweithio gyda rhieni, gofalwyr a gofalwyr seibiant.
- Nid oedd prinder therapyddion lleferydd i'w ganfod yng Ngheredigion. Pe bai rhagor o arian yn cael ei ddarparu ar gyfer swyddi credir y byddai'n bosibl denu pobl i'w llenwi.

Gweithredu

- Roedd gwybodaeth bellach i gael ei darparu ar y rhestr aros am therapi iaith a lleferydd yng Ngheredigion.

Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion

- Roedd darparu cadeiriau olwyn i blant yn broblem fawr, a wnaed yn fwy anodd gan eu hanghenion sy'n newid yn barhaus. Roedd anghydraddoldeb ar draws Cymru a'r gobaith oedd y byddai'r adolygiad a gynhelid gan Gomisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbennig Cymru yn gwella'r sefyllfa.
- Roedd ffisiotherapi yn fwyaf effeithiol ar gam cynnar felly'n gyffredinol ni ellid gweithredu rhestr aros, er y gallai rhai achosion aros am gyfnod byr. Yn arferol byddai plant ifanc a gâi eu cyfeirio yn cael y flaenoriaeth uchaf.
- Yng Nghaerdydd roedd awdurdodau iechyd ac addysg yn cyd-ariannu seddau arbennig mewn ysgolion. Yng Ngogledd Orllewin Cymru cytunwyd y byddai offer i blant o dan 16 oed yn cael ei ariannu gan y GIG tra bod y ddarpariaeth i'r rhai dros 16 oed yn cael ei ariannu drwy'r gwasanaethau cymdeithasol. Awgrymwyd fod angen arian paediatreg dynodedig ar gyfer offer. Yn aml dibynnwyd ar gyrff elusennol i brynu offer arbenigol ond gallai hyn gymryd amser hir.
- Gallai ariannu drwy Gychwyn Cadarn neu Gynllunio Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar fod yn dameidiog. Roedd disgwyl i bob corff oedd yn ymwneud â chyd brosiect gyflwyno cynnig ar wahân ac yn aml nid oedd cynigion yr holl bartneriaid yn cael eu cymeradwyo.
- Roedd gwasanaethau i fabanod a anwyd cyn pryd yn amrywio ar draws Cymru. Mewn rhai ardaloedd roedd blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi iddynt, gyda gwasanaethau dilynol yn cael eu cynnig ar unwaith ar ôl gadael yr Uned Babanod Gofal Arbennig. Mewn eraill roedd gwasanaethau yn cael eu darparu ar sail cyfeirio yn unig.
- Roedd angen rhagor o leoedd hyfforddi ffisiotherapyddion ynghyd â gweithdrefnau cynllunio gweithlu cadarn i gadw pobl mewn meysydd arbenigol. Nid oedd ffisiotherapi pediatrig yn faes mor boblogaidd i weithio ynddo â maes anafiadau chwaraeon. Roedd angen codi statws ffisiotherapyddion hefyd, efallai drwy gyflwyno cymhwyster pediatrig i ôl-raddedigion.
- Roedd gwasanaethau ffisiotherapi plant yn faes arbenigol. Nid oedd y rhai sy'n gweithio ym maes oedolion yn gweithio gyda phlant.
- Denai swyddi ffisiotherapyddion yng Nghymru nifer fach iawn o ymgeiswyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac mewn rhai ardaloedd roedd y rhan fwyaf o'r gweithlu yn rhan amser.

Penaethiaid Proffesiynol Therapi Galwedigaethol Cymru Gyfan

- Nid oedd llawer o broblem wrth recriwtio therapyddion galwedigaethol pediatriig gan ei fod yn cael ei weld fel maes atyniadol i weithio ynddo ond yr oedd angen arian ychwanegol.
- Amrywiai lefel y gwasanaethau i blant yn dioddef dyspracsia ar draws Cymru, mewn rhai ardaloedd nid oedd unrhyw ddarpariaeth. Yn ddelfrydol byddai ymwelwyr iechyd yn nodi problemau'n gynnar a byddai asesiad yn cael ei gynnal.
- Yn aml ni fyddai plant yn cael diagnosis hyd nes eu bod yn 11 mlwydd oed pan yr oedd hi'n fwy anodd, er nid yn amhosibl, rhoi help.
- Byddai hunan gyfeirio yn fantais fawr, gan y byddai'n galluogi rhieni i gael mynediad i wasanaethau cyn gynted ag y byddent yn dechrau pryderu am eu plentyn.
- Mewn rhai ardaloedd, roedd pecyn addysg yn cael ei gyflwyno i athrawon ar ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd. Roedd cynlluniau'n cael eu datblygu i ymestyn hyn mewn meysydd eraill.
- Byddai fframwaith ar gyfer comisiynu ar y cyd yn helpu i ysgafnhau'r tensiwn rhwng asiantaethau a dryswch ynglyn â phwy sydd yn gyfrifol.
- Roedd gwaith yn dechrau ar feincnodi gwasanaethau ar draws Cymru i fynd i'r afael ag anghysonderau mewn ansawdd a gwahaniaethau mewn safonau.

Contact a Family

- Roedd y system bresennol ar gyfer cael addasiadau i dai yn gymhleth, dryslyd ac yn cymryd blynyddoedd i'w chwblhau. Mewn llawer achos, ni allai rhieni fforddio'u cyfraniad hwy a mynegwyd pryder am y cynnydd arfaethedig mewn benthyciadau i rieni i'w cynorthwyo i wneud hynny a fyddai dim ond yn cymhlethu'r broses ymhellach ac yn gosod cryn bwysau ar y teulu.
- Barnwyd nad oedd prawf moddion i rieni yn ddull perthnasol na chyfartal o dargedu adnoddau.
- Ar adeg diagnosis, nid oedd gweithwyr y proffesiynau iechyd yn dal i achub ar y cyfle i ddarparu gwybodaeth ar grwpiau cefnogi i deuluoedd. Mewn rhai achosion, dim ond enw cyflwr y plentyn y byddai rhieni yn ei gael a byddai disgwyl iddynt hwy gael gafael ar y wybodaeth eu hunain. Yn aml, dim ond pan gyfarfyddai rhieni â rhieni eraill y byddai'r wybodaeth a dderbyniwyd ganddynt yn gwneud unrhyw synnwyr iddynt.
- Dengys ymchwil fod y defnydd o weithiwr allweddol wrth ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i rieni yn hollbwysig yn enwedig ar adegau diagnosis neu drosglwyddo i wasanaethau oedolion, ond profai llawer o rieni anawsterau wrth gael mynediad i weithiwr allweddol heblaw am adegau o argyfwng.
- Sefydlwyd y Rhwydwaith Cydlynu Gofal i geisio harneisio gwahanol ddatblygiadau ar draws y DU.
- Dylai anghenion o ran gwybodaeth a chefnogaeth fod yn flaenoriaeth. Nid oedd yr angen am dimau arbenigol o hyd yn cael ei gydnabod fel blaenoriaeth o fewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol.
- Roedd enghreifftiau o arfer da yng Nghymru y gellid eu cyflwyno mewn ardaloedd eraill. Yn Sir Ddinbych gwnaed defnydd cadarnhaol o'r Gofrestr Anabledd i ddsrannu gwybodaeth i rieni.
- Gyda chyflyrau prin y prif fater oedd gwell hyfforddiant ar gyfer gweithwyr meddygol

proffesiynol i ganiatáu cyfeirio cyflymach at arbenigwr.

- Bu sicrhau darpariaeth addysgol addas drwy gyfrwng y Gymraeg yn broblem fawr i Marie James, mam i blentyn 15 oed. Yr oedd uned arbenigol ond dim ond addysg hyd at 11 oed y darparai honno. Roedd yn rhaid gwneud dewis ar ôl 11 oed pa un ai i barhau yn yr ysgol Gymraeg prif ffrwd gyda chymorth arbenigol neu ddewis addysg arbennig drwy gyfrwng y Saesneg.
- Roedd nifer y bobl a oedd yn gwneud cais am fudd-daliadau yn dameidiog oherwydd fod y wybodaeth amdanynt yn dameidiog. Hefyd yr oedd y ffurflen gais ar gyfer Lwfans Byw i'r Anabl yn gymhleth ac yn cadw pobl draw. Roedd oedi wrth brosesu ceisiadau.
- Roedd angen i rieni deimlo'n hyderus bod sgrinio newydd-anedig yn ddibynadwy a dylid sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar safon y profion. Dylai'r gefnogaeth i rieni fod yn gytbwys ac yn ddealladwy gan osgoi canolbwyntio ar yr ochr negyddol yn unig.
- Mewn un sefydliad nid oedd sgrinio cyn-geni yn cael ei ddarparu lle nad oedd rhieni yn dynodi parodrwydd i gael terfyniad beichiogrwydd.

Gweithredu

- Byddai Keith Bowen yn darparu copi o'r Cyfarwyddiadur Contact a Family.
- Byddai gwybodaeth bellach yn cael ei darparu ar y Rhwydwaith Cydlynu Gofal.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- Dibynnai'r ddarpariaeth nyrsys ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar y corff llywodraethol. Arferai'r Grwp Iechyd Lleol ddarparu arian ar gyfer nyrsys amser llawn i'r ddwy ysgol arbennig yn yr ardal ond roedd yn rhaid i hynny gystadlu â blaenoriaethau eraill.
- Roedd yr ymdrech i gael cynhwysiant ehangach mewn ysgolion prif ffrwd yn rhoi pwysau ar adnoddau cyfyngedig. Roedd angen cael ymagwedd realistig tuag at gynhwysiant. Roedd gan rai plant anghenion cymhleth iawn na ellid darparu ar eu cyfer ymhob ysgol.
- Ni roddwyd digon o werth ar bwysigrwydd y blynyddoedd cyn yr oed ysgol statudol.
- Dylai adnoddau gael eu targedu'n well a gallai'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant Mewn Angen a'u Teuluoedd roi'r cyfle i wneud hynny.
- Roedd darpariaeth therapi yn gyffredinol yn broblem ond yn arbennig therapi lleferydd a iaith ac hyd yn oed lle'r oedd pobl yn barod i dalu nid oedd digon o therapyddion i ddarparu'r gwasanaeth.
- Roedd angen egluro rôl iechyd ac addysg wrth ddarparu gwasanaethau therapi i blant. Yn aml ni ddeallai rhieni fod therapi yn cael ei ddarparu gan y sector iechyd am ei fod yn cael ei gyflwyno mewn sefyllfa addysgol.
- Y prif rwystr i weithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd oedd yr angen i dorri ar arfer a'r ffordd yr oedd pobl wedi gweithio gyda'i gilydd yn y gorffennol. Byddai'r hyblygrwyddau o dan y Ddeddf Iechyd yn galluogi sefydlu timau aml-asantiaeth i ddarparu siop un cam i rieni.

2.2 Mewn ymateb i'r cyflwyniadau, gwnaeth y Gweinidog y sylwadau canlynol:

- Roedd Plant yn Gyntaf yn targedu plant mewn angen ac roedd y Cynulliad yn gobeithio y byddai gofawr, rhieni a defnyddwyr yn dylanwadu ar sut yr oedd cynlluniau Plant yn Gyntaf yn cael eu datblygu ar lefel leol.
- Byddai'r hyblygrwyddau newydd o dan y Ddeddf Iechyd yn gwneud gweithio ar y cyd yn haws. Roedd rhai engreiffitiau da i'w gweld yn barod a disgwylir gweld rhagor.
- Roedd prinder therapyddion lleferydd a iaith yn cael ei gydnabod ac yr oedd gwaith ar y gweill i edrych ar hyfforddi ac addysg, cydnabyddiaeth a chodi eu statws.
- Roedd grantiau a ddarparwyd gan Cychwyn Cadarn a Cynllunio Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar yn cael eu dwyn ynghyd drwy Cymorth.
- Roedd adolygiad o'r gwasanaethau sgrinio cyn-geni yng Nghymru yn cael ei gynnal a byddai'r trefniadau newydd yn hyrwyddo caniatâd hyddysg gan rieni a chwrsela.
- Roedd gwybodaeth ar y ddarpariaeth therapi lleferydd a iaith, ymwelwyr iechyd arbenigol, a nyrsys ysgol ar draws Cymru yn cael ei chasglu.

2.3 Diolchodd y Cadeirydd i bawb a gyflwynodd dystiolaeth i'r Pwyllgor.

Eitem 3: Cofnodion

Papurau: HSS-03-02(min)

3.1 Gohiriwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2002 tan y cyfarfod nesaf.

Eitem 4: Papurau i'w Nodi

Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a Phwyllgor yr Amgylchedd Cynllunio a Thrafnidiaeth: Blaen Raglenni Gwaith

4.1 Gofynnwyd i Aelodau ddarparu unrhyw sylwadau ar y blaen raglenni gwaith i'r Cadeirydd a'r Clerc.

Gwasanaethau Triniaeth ac Adsefydlu i Gamddefnyddwyr Sylweddau

4.2 Gofynnodd Geraint Davies i ystyriaeth gael ei rhoi i a ddylai'r pwyllgor drafod y pwnc mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Gweithredu

- I'w ystyried gan lefarwyr y pleidiau.